**EISTEDDFOD YR URDD YNYS MÔN 2026**

**BEIRNIADAETH CYSTADLEUAETH 388 – CYFANSODDI SGRIPT WREIDDIOL BL 7, 8 , 9**

Beirniad: Mared Llywelyn

Daeth pymtheg ymgais i law, a dyna braf yw gweld bod cyn gymaint o bobl ifanc wedi mynd ati i ysgrifennu ar gyfer y gystadleuaeth hon. Dwi'n eich annog i ddarllen dramâu a mynd i weld pob mathau o gynhrychiadau theatr – fel'na rydych chi wir yn dysgu sut mae deialogi a strwythuro.
Mwynheais ddarllen pob un o'r darnau, ac roedd cryfderau ymhob un ohonynt, gyda deialogi cyhyrog, llawn ffraethineb. Gwyliwch nad ydi eich deialog yn rhy ffurfiol neu glogyrnaidd. Mae'n bwysig defnyddio iaith ffurfiol lle bo'n briodol, ond efelychu pobl yn siarad go iawn yr ydym mewn sgript, ac mae'r rhai sydd wedi dod i'r brig wedi llwyddo wrth wneud hyn. Efallai na fuasai pob beirniad yn cytuno, ond dwi ddim yn credu bod angen synopsis ar ddechrau pob sgript i egluro popeth sy'n digwydd – dw i isio darganfod hynny drwy'r ddeialog!
'Ffrindiau' oedd testun y gystadleuaeth, ac er bod testunau yn cael eu gosod, cofiwch nad oes rhaid glynu'n gaeth i'r thema, neu fod yn rhy llythrennol. Defnyddiwch eich dychymyg wrth feddwl am blot eich drama – mae mwy o ryddid na rydych yn feddwl, dim ond i chi ymddiried yn eich sgwennu eich hun.

Dyma ychydig o eiriau am bob darn o waith:

**Blodeuwedd** – Drama am ysgol yn gwneud cynhyrchiad o'r sioe 'Mamma Mia' , a dwy ffrind ar dân eisiau un o'r prif rannau. Yn y diwedd dangoswyd gwir gyfeillgarwch rhwng dwy pan benderfynodd Heti ei bod am roi ei rhan i'w ffrind, Mari gan ei fod yn freuddwyd ganddi chwarae'r prif ran. Roedd yma ddrama llawn anwyldeb a deialogi o safon.

**Blodyn Gwyn** – Stori am ddarganfod ffrindiau a chyfeillgarwch newydd oedd yn y sgript hwn. Rhaid canmol y dramodydd am y diweddglo yn enwedig wrth i'r prif gymeriad ddarganfod y cryfder i rannu ei gwir theimladau wedi iddi gael ei bradychu. 'Anfon a bloc.' !

**Branwen** – Roedd hon yn sgript fer, ond nid yw hynny i ddweud bod sgriptiau byr yn llai effeithiol. Mae'n dibynnu'n hollol *beth* sy'n cael ei ddweud. Dyma olygfeydd rhwng ffrindiau yn cael hwyl a sbri yng Nglan Llyn ym mherfeddion nos. Roedd y cymeriadu'n gryf ac egni hwyliog yn rhedeg drwyddi draw.

**Cennin Pedr** – Hoffais ddychymyg y cymeriadau yn y sgript hwn wrth iddynt gynnal sioe dalent un amser egwyl. Roedd hon ymysg y sgriptiau mwyaf cyflawn ac wedi'i chynllunio'n dda. Roedd y gwaith deialogi'n dda, ond roeddwn yn teimlo ambell dro bod angen ystwytho ar yr iaith fel nad oedd yn teimlo mor glogyrnaidd.

**Ceridwen** – Rhaid canmol y dramodydd am fynd i'r afael â phwnc anodd, sef trychineb Aberfan. Roedd symbol 'Y Cloc Toredig', sef teitl y darn yn rhedeg fel thema drwy'r darn yn effeithiol iawn, gyda rhai golygfeydd wir yn ennyn emosiwn.

**Dewin Myrddin** – Roedd defnydd Dewin Myrddin o'r storïwr yn torri'r bedwaredd wal yn chwa o awyr iach yn y gystadleuaeth. Roedd rhyw elfen swreal ac absẃrdaidd yn y ddeialog yma a roeddwn wir yn mwynhau hynny. Roedd ganddom gymeriadau megis yr 'Athrawon twp yn ailsgwennu hanes' gyda llinellau ffraeth iawn o ddrysu GIG (yr NHS) gyda gig miwsig fyw. Roedd yn teimlo'n theatraidd iawn yn y ffordd cafodd ei sgwennu.

**Enfys** – Anghydfod rhwng ffrindiau a geir yma, a hynny dros hen fideo oedd yn cael ei ail wylio ar ffôn. Egin stori oedd yma, ac mae'n addawol iawn. Dyma enghraifft o ddarn oedd yn fy marn i'n rhy fyr am fy mod isio gwybod mwy am y cymeriadau!

**Florian Wirtz –** *Les Ombres* oedd teitl y sgript hwn, a dyma dynnu'r gynulleidfa i wlad a chyfnod arall mewn hanes. Edmygais ddychymyg y dramodydd am leoli'r sgript ynghanol Y Chwyldro Ffrengig – syniad gwreiddiol a beiddgar. Wrth ddatblygu'r sgript, byddwn yn *dangos* beth sy'n digwydd yn hytrach na dweud.

**Grug** – Dyma gyfuniad effeithiol i gael deialog cryf, llawn hiwmor mewn sefyllfa pryderus ac eithaf dychrynllyd. Yn dilyn cyhoeddiad gan y Prifathro ar drosleisydd, mae 'na 'gyfnod clo' yn yr ysgol. Mi fysa'n wych datblygu ar y syniad a datgleu pam oedd 'na gyfnod clo? Beth oedd y bygythiad?

**Lili Wen Fach** – Mae'n naturiol i'r testun 'ffrindiau' esblygu i drafodaeth ar fwlio. Mae angen gwrthdaro ymhob sgript wedi'r cyfan, ac mae'r dramodydd yn llwyddo i greu'r tensiwn hynny. Buasai awgrym pam bod Alaw wedi trin Fflur fel y gwnaeth yn ychwanegu at y tensiwn hyn, a chynnig diweddglo sy'n cynnig rhyw fath o ateb.

**Melinbyrhedyn** – Dyma sgript arall oedd yn mynd a ni ar daith i gyfnod arall yn ein hanes. Cyd-destun hanesyddol y ddrama yw Brad y Llyfrau Gleision, a lleolir y ddrama 50 mlynedd wedi hynny. Mae'r cymeriadau'n grwn a chyflawn (hoffais bortread Mr Huws llym yn enwedig) y deialogi'n gyhyrog a'r darn wedi ei strwythuro'n dda, a'r tro bach yn y gynffon gyda'r diweddglo'n gweithio'n berffaith

**Mukherjee** – Gobeithio nad yw cinio ysgol y dramodydd yma mor afiach a mae'n disgrifio yn y ddrama! Mae'r disgyblion yn gwrthryfela a phrotestio'n erbyn y sefydliad. Sgript hwyliog – a sgwni pwy roddodd y gegin ar dân?!

**Teyrnon** – Roedd y darn hwn yn mynd i dir tywyllach. Roedd yr elfen weledol yn chwarae rhan amlwg yma gydag effeithiau golau a sain yn rheoli'r awyrgylch yn syth. Manon yw'r prif gymeriad yn 'Y Tyst' wrth iddi orfod rhoi tystiolaeth mewn achos llys wedi llofruddiaeth torfol yn yr ysgol. Heb ddatgelu dim mwy ar y plot, rwy'n annog y dramodydd i ddatblygu'r sgript ymhellach.

**Tiki Tiki Tembo** – Sgript hwyliog am griw o ffrindiau'n dianc i fynd i'r caffi amser cinio – ond yn cael eu nadu gan sawl tro trwstan ar y ffordd. Syniad syml sydd yma ond gyda'r tro yn y gynffon yn y diweddglo, ynghŷd â'r deialogi hyderus gan ddefnyddio iaith gyfoethog yn llawn dywediadau ac idiomau, roedd yn teimlo fel sgript gorffenedig a chyflawn.

**Ton y Môr** – Lleolir y ddrama hon yn y 50au, ac yn archwilio thema dosbarth cymdeithasol, a sut mae goresgyn y gwahaniaeth hynny drwy gyfeillgarwch. Roedd yn theatrig iawn a roeddwn yn gallu dychmygu'r llwyfannu wrth ddarllen y sgript. Daliwyd awyrgylch plentyndod yn effeithiol iawn.

Bu'n bleser darllen yr holl sgriptiau, ac roedd yn dasg anodd i ddewis y tri sy'n dod i'r brig. Eleni, Melinbyrhedyn sy'n fuddugol am ei sgript aeddfed a chymeriadu arbennig, gyda Tiki Tiki Tembo yn ail, a Branwen yn drydydd. Mi fuaswn wedi gallu gwobrwyo sawl un arall hefyd. Bydd byd y ddrama yng Nghymru yn saff os y gwnewch chi gyd barhau i ysgrifennu.

1. **Melinbyrhedyn**
2. **Tiki Tiki Tembo**
3. **Branwen**